| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **29 Ionawr 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Barbara Smith** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Catrin Roberts, Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol** |
| **Teitl:** | **Proses Awdurdodi'r Cytundeb Setliad** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r adolygiad diweddar a gynhaliwyd gan yr Archwilwyr ar y cytundeb setliadau. Daeth yr Archwilwyr i'r casgliad, er nad oedd unrhyw reswm i amau dilysrwydd unrhyw un o'r achosion a adolygwyd, nad oes gan y Cyngor bolisi na chod ymarfer ffurfiol ar gyfer ymdrin ag achosion ac nad oes gweithdrefnau ffurfiol i'w dilyn i sicrhau cysondeb, tegwch a thryloywder nac i ddarparu achos busnes cymeradwy ar gyfer pob cytundeb. O ganlyniad, gwnaethpwyd yr argymhellion canlynol:

- Datblygu polisi a phroses ar gyfer gytundebau setliadau
- Dylai hyn gynnwys achos busnes ar gyfer gwneud y cytundeb setliad a phroses ffurfiol ar gyfer cymeradwyo.
- Darparu gwybodaeth gadarn i gefnogi'r achos

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad ar yr argymhellion uchod.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi cynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Mae proses ddrafft wedi ei datblygu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod yr adolygiad archwilio.

Mae'r broses yn cynnwys:

- Ffurflen Caglu Gwybodaeth Achosion Cymhleth - bydd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth gadarn i gefnogi'r achos a bod yr adran gyfreithiol yn ymwneud â'r achos yn fuan yn y broses i sicrhau bod cytundeb setliad yn addas.
- Ffurflen Cyfarwyddyd Cytundeb Setliad - mae hyn yn nodi'r amodau i'w cynnwys yn y cytundeb

- Proses Awdurdodi Cytundeb Setliad - cyn y cytunir ar gytundeb setliad bydd angen iddo gael ei awdurdodi gan y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr priodol, y Pennaeth Cyllid ac Asedau a'r Pennaeth Adnoddau Dynol. Bydd hyn yn sicrhau bod cytundebau yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn deg ar draws yr awdurdod.

Mae'r broses yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Unwaith y cytunir ar hyn, gall y broses gael ei rhoi ar waith. Felly rydym ni'n rhagweld y bydd y proses ar waith ddechrau mis Chwefror.

**5. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes cost uniongyrchol yn gysylltiedig â gweithredu'r broses hon. Bydd y costau'n cael eu penderfynu fesul achos ar ôl ystyried y ffeithiau ategol. Bydd y broses hon yn darparu proses llawer mwy cadarn ar gyfer awdurdodi cytundebau setliadau a bydd hynny yn ei dro yn helpu'r awdurdod i amddiffyn ei hun yn well.

**6. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes unrhyw fater yn codi o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**7. Pa ymgynghori a gwblhawyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae'r broses yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd y broses awdurdodi yn cryfhau sefyllfa'r cyngor o ran cytundebau setliadau ac yn darparu dull teg a chyson ar draws yr awdurdod. O safbwynt ariannol, bydd yn sicrhau bod unrhyw gytundeb yn darparu dull cost effeithiol o ddelio â materion.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Pwrpas y broses hon yw lleihau'r risg i'r awdurdod drwy ddarparu proses gadarn ac amddiffynadwy.